

.....
Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd

**POLISI DRAFFT EITHRIO ARDDANGOS PLÂT
 CERBYD HURIO PREIFAT**

Awdur/Ceidwad:	Nicky Jones
Dyddiad y cytunwyd ac y gweithredwyd arno:	
Cytunwyd gan:	
Amllder Adolygu:	Bob 3 blynedd
Dyddiad adolygu:	
Cwblhawyd Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb: (dyddiad)	
Cyfraniad Aelodau(os o gwbl)	
Mewnol neu gyhoeddus:	Cyhoeddus
Cymeradwyaeth Pennaeth Gwasanaeth: (Llofnod a Dyddiad)	

RHEOLI FERSIYNAU:			
Cyfeirnod:	Statws:	Awdurdodwyd gan:	Dyddiad:
F01	Terfynol / Drafft	Pennaeth Gwasanaeth	

1. Nodau ac Amcanion y Polisi

- 1.1 Nod y polisi hwn yn gwarchod y cyhoedd, gan gymryd ymagwedd gytbwys tuag at ofynion trwyddedu.
- 1.2 Y prif nod yw ffurfioli'r defnydd o bŵer dewisol i ganiatáu cerbydau uwchraddol i weithredu heb arddangos platiau trwydded allanol y Cyngor.

2. Cyflwyniad

- 2.1 Mae Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 yn ei gwneud yn ofynnol bod platiau trwydded yn cael eu harddangos ar gerbydau hurio preifat trwyddedig a bod y gyrrwyr yn gwisgo bathodyn gyrrwr.
- 2.2 Mae'r un ddeddfwriaeth yn caniatáu i Awdurdod Trwyddedu eithrio arddangos platiau trwydded cerbyd hurio preifat a, lle bo'r eithriad yn berthnasol, nid yw'r gofyniad i wisgo bathodyn gyrrwr hurio preifat yn berthnasol.
- 2.3 Mae arddangos platiau adnabod cerbyd a bathodyn gyrrwr yn bwysig o ran gwarchod y cyhoedd a'r fasnach tacsis.
- 2.4 Mae rhai achlysuron, fodd bynnag, pan fydd y gofyniad i arddangos platiau a bathodynau adnabod yn cael effaith gwrthgyferbyniol o ran diogelwch cwsmer a goblygiadau masnachol ar gyfer y busnes gweithredol, megis gweithrediad cerbydau gyrrwr preifat, uwchraddol a limwsîn. Gall nodi cerbyd fel cerbyd trwyddedig achosi i deithwyr sydd â "risg uchel" fod yn haws eu targedu, gan eu rhoi hwythau a'r gyrrwr mewn perygl.
- 2.5 Gall arddangos platiau adnabod Awdurdod Lleol allanol atal rhai cwsmeriaid corfforaethol rhag defnyddio'r gwasanaeth.
- 2.6 Mae'r polisi'n amlinellu'r math o anghenion busnes gweithredol a gofyniad busnes ac yn disgrifio'r isafswm safon o ran y math o gerbyd a chyfforddusrwydd priodol cyn y bydd y Cyngor yn ystyried cais am eithriad rhag arddangos platiau.
- 2.7 Dylid darllen y polisi gyda'n polisi cyfredol (y Llyfr Glas) mewn perthynas â cherbydau hurio preifat.

3. Y Polisi.

- 3.1 Bydd ceisiadau'n cael eu hystyried a'u hasesu ar eu rhinweddau eu hunain.
- 3.2 Arolygir pob cerbyd gan Swyddog awdurdodedig y Cyngor i sicrhau ei fod yn addas i bwrpas.
- 3.3 Rhoddir eithriad fel arfer lle bydd gwaith yn cael ei gyflawni yn bennaf neu'n gyfan gwbl y tu allan i'r Sir yn unig.
- 3.4 Dim ond mewn achosion prin iawn y defnyddir y pwerau dewisol hyn. Pan fydd y Cyngor yn fodlon bod gwir alw a gofyniad busnes gweithredol, a phan na fydd diogelwch y cyhoedd yn cael ei beryglu o ganlyniad i hynny.
- 3.5 Mae'r cerbyd a'r gyrrwr yn cael eu hurio'n benodol i ddarparu cludiant i gwmni neu unigolyn, a / neu pan y gall arddangos plât trwydded adnabod effeithio ar urddas neu ddiogelwch yr unigolyn (unigolion) a gludir.

Manylion y Cerbyd

- 3.6 Ystyrir eithriad pan ddiwellir y gofynion canlynol yn unig:
- Bod y cerbyd sydd i'w eithrio o ansawdd moethus megis Mercedes Benz Dosbarth E neu S, BMW 7 Series, Jaguar, Rolls Royce, Bentley Saloon, Lexus GS neu LS neu Audi A8. Efallai y gellir ystyried ceir uwchraddol o'r fanyleb uchaf gan wneuthurwyr eraill hefyd. Bydd cerbydau hir Americanaidd fel arfer yn gymwys
 - Bod y cerbyd mewn cyflwr perffaith heb unrhyw ddiffyg, tolc na nam ar du allan y car, yr olwynion, trim mewnol na'r seddau.

Y math o waith a ystyrir ar gyfer Eithriad

- 3.7 Mae'r math o waith a wneir yn "arddull uwchraddol" yn unig h.y.:
- Contractau gydag uwch bersonél cwmnïau mawr i gludo Cyfarwyddwyr Rheoli neu eu cleientiaid
 - Contractau gyda llywodraeth leol neu genedlaethol, neu asiantaethau tebyg, i gludo uwch bersonél a gwesteion ar fusnes swyddogol
 - Cludo enwogion adnabyddus megis sêr y byd chwaraeon neu gerddoriaeth
- 3.8 Mae'r rhestr uchod yn ddangosol, ond nid yw'n gynhwysfawr.

Y math o waith NA ystyrir ar gyfer Eithriad

- 3.9 Dylai'r math o waith NA ddylid ei ystyried ar gyfer eithriad gynnwys:
- Contractau ysgol y Cyngor a gwasanaethau cymdeithasol
 - Teithiau i faes awyr, porthladdoedd neu orsafoedd trên, oni bai ei fod yn rhan o daith sy'n cael ei gynnwys gan eithriad (ystyrir bod arddangos platiau trwydded a sticeri drws y Cyngor yn nodwedd diogelwch wrth gyrraedd lleoliadau o'r fath).
 - Teithiau i'r theatr neu ddigwyddiadau chwaraeon
 - Partïon 'Plu' a 'Stag'
- 3.9 Mae'r rhestr uchod yn ddangosol, ond nid yw'n gynhwysfawr.

Ystyriaethau Eraill

- 3.10 Y math o waith a wneir gan y Cerbyd Hurio Preifat
- 3.11 Sut mae'r gwaith yn wahanol i waith cerbyd hurio preifat arferol.
- 3.12 Nifer y teithiau nad ydynt yn waith hurio preifat
- 3.13 Hyd pob taith nad yw'n waith cerbyd hurio preifat arferol
- 3.14 Nifer y teithiau cerbyd hurio preifat arferol / anarferol a wneir gan y cerbyd
- 3.15 Unrhyw hanes perthnasol yr ymgeisydd mewn perthynas â thorri amodau neu ddeddfwriaeth.
- 3.16 Wrth ystyried nifer a hyd y teithiau cerbyd hurio preifat arferol, ni roddir eithriad os y gellir dangos bod nifer a hyd y teithiau ar gyfer gwaith hurio preifat arferol yn gyfystyr ag o leiaf 50% o'r gwaith a wnaed gan y cerbyd.

4. Gweithdrefn

- 4.1 Cyflwynir ceisiadau am eithriad i'r Awdurdod Trwyddedu, yn ysgrifenedig, gan ddeilydd trwydded y cerbyd.
- 4.2 Bydd swyddogion yn asesu os oes gwir alw am y busnes gweithredol neu beidio ac os yw'r cerbyd yn diwallu'r meini prawf a nodwyd yn 3.6 uchod neu beidio.
- 4.3 Os yw'r gofynion a osodwyd yn 3.6 uchod wedi'u diwallu i fodloni'r Swyddog, yna rhoddir hysbysiad eithriad.
- 4.4 Waeth pryd fydd hysbysiad eithriad yn cael ei gymeradwyo, bydd yr hysbysiad eithriad cychwynnol yn dod i ben ar yr un diwrnod â thrwydded hurio preifat y cerbyd, oni bai y caiff ei ildio neu ei dynnu'n ôl.
- 4.5 Wedi hynny, bydd unrhyw hysbysiad eithriad sy'n cael ei adnewyddu yn cael ei gyflwyno i gyd-fynd â'r drwydded cerbyd hurio preifat.

5. Amodau Eithriad (yn ogystal â'r amodau a nodwyd yn Llyfr Glas y Cyngor)

- 5.1 Wrth weithredu dan yr hysbysiad eithriad, bydd angen i'r cerbyd arddangos y plât mewnol ar ffenestr flaen y cerbyd trwy gydol yr amser pan fydd yr eithriad mewn grym.
- 5.2 Bydd yr Hysbysiad Eithriad yn a roddwyd gan yr Awdurdod Trwyddedu, yn cael ei gludo yn y cerbyd trwy gydol yr amser a bydd yn cael ei gyflwyno ar gais i swyddog awdurdodedig y Cyngor (neu unrhyw swyddog awdurdodedig y Cyngor o fewn yr ardal weithredol) neu swyddog yr heddlu.
- 5.3 Heblaw'r plât mewnol (ffenestr flaen), ni fydd deilydd y drwydded yn arddangos unrhyw hysbyseb, arwyddion, logos yn hysbysebu'r cwmni gweithredu na statws y cerbyd fel cerbyd hurio preifat ar neu yn y cerbyd.
- 5.4 Bydd plât trwydded cerbyd hurio preifat yn cael ei osod mewn lleoliad gweladwy yng nghist y car ac ni fydd yn cael ei arddangos yn allanol tra bo'r hysbysiad eithriad mewn grym. Ar gais, bydd y plât trwydded yn cael ei arddangos i swyddog awdurdodedig y Cyngor (neu unrhyw swyddog awdurdodedig y Cyngor o fewn yr ardal weithredu) neu swyddog yr heddlu.
- 5.5 Yn ystod cyfnod yr hysbysiad eithriad, ni fydd y gyrrwr yn gwisgo bathodyn gyrrwr cerbyd hurio preifat (neu fathodyn gyrrwr ar y cyd os yn berthnasol), ond bydd ar gael i'w arolygu gan swyddog awdurdodedig y Cyngor (neu unrhyw swyddog awdurdodedig y Cyngor o fewn yr ardal weithredol) neu swyddog yr Heddlu, ar gais.
- 5.6 Trwy gydol y cyfnod o eithriad, bydd gyrrwr y cerbyd wedi'u gwisgo'n briodol naill ai mewn siwt busnes a cholerau thei.
- 5.7 Os oes mesurydd tacsï yn y cerbyd, ac yn cael ei ddefnyddio i osod y pris, yna caiff ei osod mewn modd fel y caiff ei guddio rhag ei weld yn arferol (ynghyd â bwrdd ffioedd / cerdyn toll).
- 5.8 Daw'r eithriad i ben pan werthir neu drosglwyddir y cerbyd i barti arall. Rhaid i'r unigolyn y rhoddwyd yr eithriad iddynt hysbysu'r Cyngor o werthiant / trosglwyddo perchnogaeth o fewn 7 diwrnod, ac yn ysgrifenedig. Rhaid i'r hysbysiad eithriad gael ei ddychwelyd i'r Cyngor ynghyd â phlât adnabod cerbyd hurio preifat, oni bai y caiff ei werthu i weithredwr cerbyd hurio preifat arall a drwyddedwyd gan y Cyngor; ac felly dim ond yr hysbysiad eithriad sy'n rhaid ei ddychwelyd.

5.9 Ni ddylid defnyddio'r cerbyd ar gyfer pwrpas hurio preifat heblaw am ddefnydd gyrrwr / uwchraddol (h.y. nid ar gyfer taith arferol i faes awyr neu ddefnydd hurio preifat dyddiol).

6. Apeliadau

6.1 Os na fydd ymgeisydd yn fodlon gyda phenderfyniad y Swyddog, gall yr ymgeisydd gyflwyno cais ysgrifenedig i adolygu'r penderfyniad i'r Pwyllgor Trwyddedu.

6.2 Os yw'r Pwyllgor Trwyddedu o'r farn nad oes gwir angen busnes gweithredol ar gyfer eithriad i arddangos plât, byddant yn hysbysu deilydd y drwydded cerbyd eu bod wedi'u gwrthod.

6.3 Nid oes hawl statudol o apêl yn erbyn penderfyniad y Cyngor i beidio â gweithredu ei ddisgresiwn a chaniatáu eithriad.


7. Cwyn


7.1 Os ydych yn dymuno cwyno am y modd yr ydym wedi darparu gwasanaeth, yna gallwch wneud cwyn i Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, i'r cyfeiriad sydd wedi'i nodi ar ddiwedd y ddogfen hon. Fel arall, gallwch gysylltu â Swyddog Cwynion y Cyngor ar 01824 706169. Bydd pob cwyn yn cael ei harchwilio a byddwn yn ymateb iddynt yn unol â Pholisi Cwynion y Cyngor. Gellir gweld Polisi Cwynion y Cyngor ar y wefan: www.sirddinbych.gov.uk.


8. Cysylltiadau

8.1 Mae'r Polisi ar gael yn Saesneg. Gellir gwneud copïau mewn unrhyw iaith arall, ar gais. Gweler y manylion cyswllt isod.


Graham H Boase, Pennaeth Gwasanaeth:

 Caledfryn, Dinbych, Sir Ddinbych, LL16 3RJ


 graham.boase@denbighshire.gov.uk

 01824 706925

Yr Adain Drwyddedu;

 Tŷ Russell, Ffordd Churton, y Rhyl, Sir Ddinbych, LL18 3DP

 licensing@denbighshire.gov.uk

 01824 706342